



COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

CANLLAWIAU

Elusennau sydd wedi'u hesgusodi (CC23)



Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Rheoleiddio elusennau sydd wedi'u hesgusodi	4
3. Elusennau sydd wedi'u hesgusodi a'r gyfraith	6
4. Cymorth a chyngor i elusennau sydd wedi'u hesgusodi	9
Atodiad 1: Elusennau sydd wedi'u hesgusodi a'u prif reoleiddwyr	12
Atodiad 2: Manylion cyswllt ar gyfer prif reoleiddwyr	16
Atodiad 3 - Canllawiau defnyddiol eraill i elusennau sydd wedi'u hesgusod	18

1. Cyflwyniad

1.1 Am beth mae'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn yn esbonio beth yw elusennau sydd wedi'u hesgusodi. Mae hefyd yn esbonio pa rannau o'r gyfraith elusennau y mae'n rhaid iddynt eu dilyn, sut y cânt eu rheoleiddio a sut y gall y Comisiwn Elusennau eu helpu nhw. Mae'n berthnasol i elusennau sy'n gweithio yng Nghymru a Lloegr yn unig.

Efallai y bydd y canllaw hwn yn ddefnyddiol os ydych yn ymwneud â rhedeg elusen sydd wedi'i hesgusodi, neu os oes pryderon neu gwestiynau gennych am elusen sydd wedi'i hesgusodi.

1.2 Cyflwyniad a chrynodeb

Mae rhai elusennau wedi'u hesgusodi rhag cofrestru a chael eu rheoleiddio gan y Comisiwn Elusennau. Cânt eu galw'n elusennau sydd wedi'u hesgusodi. Tan yn ddiweddar, nid oedd unrhyw reoleiddiwr elusen gan elusennau sydd wedi'u hesgusodi. Ni allai'r Comisiwn ymchwilio i gamweithredu honedig mewn elusen sydd wedi'i hesgusodi. Ond mae elusennau sydd wedi'u hesgusodi bob amser wedi gallu droi at y Comisiwn am gymorth neu gyngor.

Mae'r Ddeddf Elusennau yn newid y ffordd y caiff elusennau sydd wedi'u hesgusodi eu rheoleiddio, er mwyn gwella cydymffurfiaeth â'r gyfraith elusennau. Pan gaiff y Ddeddf ei gweithredu'n llawn, mae'n rhaid i bob elusen sydd wedi'i hesgusodi naill ai:

- gael 'prif reoleiddiwr' i'w rheoleiddio fel elusennau, neu
- heb fod wedi'u hesgusodi mwyach a bydd y Comisiwn yn eu rheoleiddio

Mae'n rhaid i brif reoleiddwyr hyrwyddo cydymffurfiaeth elusennau sydd wedi'u hesgusodi â'r gyfraith elusennau. Nid oes unrhyw bwerau gorfodi ganddynt, ac felly mae'n rhaid iddynt weithio gyda'r Comisiwn Elusennau.

Mae'r newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n raddol ar gyfer grwpiau gwahanol o elusennau sydd wedi'u hesgusodi. Gallwch weld pa grwpiau o elusennau sydd wedi'u hesgusodi sydd â phrif reoleiddwyr eisoes yn Atodiad 1 y canllaw hwn.

Mae'n rhaid i elusennau sydd wedi'u hesgusodi barhau i gydymffurfio ag egwyddorion cyffredinol y gyfraith elusennau, megis cyfrifoldebau ymddiriedolwyr, ond mae rheolau gwahanol yn gymwys yn dibynnu a oes gan elusen sydd wedi'i hesgusodi brif reoleiddiwr neu beidio:

- nid yw rhai rhannau o'r Ddeddf Elusennau yn gymwys i unrhyw elusennau sydd wedi'u hesgusodi
- mae rhai rhannau o'r Ddeddf yn gymwys i elusennau sydd wedi'u hesgusodi sydd â phrif reoleiddiwr yn unig
- mae rhai rhannau o'r Ddeddf yn gymwys i bob elusen sydd wedi'i hesgusodi

Mae'r canllaw hwn yn esbonio pa rannau o'r Ddeddf Elusennau fydd yn gymwys. Mae hefyd yn esbonio sut y gall y Comisiwn helpu elusennau sydd wedi'u hesgusodi.

1.3 Rhai termau a ddefnyddir yn y canllaw hwn

Y **Ddeddf Elusennau** yw Deddf Elusennau 2011. Mae'r Ddeddf Elusennau yn dwyn ynghyd Deddf Elusennau 1993, Deddf Elusennau 2006, a rhai cyfreithiau eraill sy'n ymwneud ag elusennau mewn un Ddeddf.

Ystyr Deddf 2006 yw Deddf Elusennau 2006. Newidiodd Deddf 2006 dulliau rheoleiddio elusennau sydd wedi'u hesgusodi. Mae'r newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n raddol. Mae darpariaethau Deddf 2006 yn rhan o Ddeddf Elusennau 2011 erbyn hyn ("y Ddeddf Elusennau").

Ystyr gwaredu yw gwerthu, prydlesu neu gyfnewid tir. Mae'n cynnwys rhoi hawl tramwy neu hawliau eraill, a'r holl drafodion eraill lle mae'r ymddiriedolwyr yn rhoi, neu'n rhoi budd yn, eu tir. (Nid yw'n cynnwys rhyddhau rhent-dal neu unrhyw warediad i warantu morgais).

Y ddogfen lywodraethol yw'r ddogfen gyfreithiol sy'n amlinellu amcanion yr elusen ac, fel arfer, sut y caiff ei gweinyddu. Fel arfer mae'n weithred ymddiriedolaeth, yn gyfansoddiad neu'n erthyglau cymdeithasu. Fel arall gallai fod yn ewyllys, yn drawsgludiad, yn Siarter Frenhinol, yn Gynllun y Comisiwn, neu'n ddogfen ffurfiol arall.

Ystyr tir yw tir yng Nghymru a Lloegr gyda neu heb adeiladau ac mae'n cynnwys unrhyw ystad neu fudd mewn tir, megis prydles neu hawl tramwy.

Ystyr gwaddol parhaol yw eiddo (tir, adeiladau, buddsoddiadau neu arian parod) na chaniateir i'r ymddiriedolwyr ei wario fel petai'n incwm.

Ymddiriedolwr yw ymddiriedolwr elusen. Ymddiriedolwyr elusen yw'r bobl sy'n gyfrifol am lywodraethu'r elusen. Maen nhw'n penderfynu ar ei strategaeth ac yn cyfeirio sut y caiff ei rheoli. Yn nogfen lywodraethol yr elusen, gellir eu galw'n ymddiriedolwyr, ymddiriedolwyr rheoli, aelodau pwyllgor, llywodraethwyr neu'n gyfarwyddwyr, neu ryw deitl arall. Mae'r Ddeddf Elusennau yn eu diffinio fel ymddiriedolwr oherwydd eu cyfrifoldeb.

Mae'r gair 'rhaid' yn cael ei ddefnyddio pan fydd gofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol y mae'n rhaid i chi gydymffurfio ag ef. Mae 'dylai' yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y canllawiau arfer da lleiaf y dylech eu dilyn oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.

Defnyddiwn 'dylai' ar gyfer eitemau sy'n cael eu hystyried yn arfer da lleiaf, ond nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol penodol ar eu cyfer. Dylai ymddiriedolwyr ddilyn y canllawiau arfer da oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.

2. Rheoleiddio elusennau sydd wedi'u hesgusodi

2.1 Beth yw elusen sydd wedi'i hesgusodi?

Gofyniad cyfreithiol: mae elusen sydd wedi'i hesgusodi yn un sydd heb gael ei rheoleiddio gan y Comisiwn Elusennau, ac ni all gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau. Mae elusen wedi'i hesgusodi os yw:

- wedi'i chynnwys yn Atodlen 3 i'r Ddeddf Elusennau
- yn gronfa fuddsoddi gyffredin neu'n gronfa adnau gyffredin sy'n caniatáu i elusennau sydd wedi'u hesgusodi yn unig i gymryd rhan (gweler adran 4), neu
- wedi'i hesgusodi drwy ryw ddeddfwriaeth arall

I gael rhagor o fanylion gweler Atodiad 1 i'r canllaw hwn.

2.2 Pam mae rhai elusennau wedi'u hesgusodi?

Mae rhai elusennau wedi'u hesgusodi o gael eu rheoleiddio'n uniongyrchol gan y Comisiwn oherwydd eu bod nhw'n cael eu goruchwyllo gan ryw gorff neu awdurdod arall, neu'n atebol iddo.

Yn y gorffennol, nid yw elusennau sydd wedi'u hesgusodi bob amser wedi cael eu rheoleiddio'n effeithiol fel elusennau oherwydd nid yw'r rheoleiddwyr eraill hyn wedi bod yn gyfrifol am y gyfraith elusennau. Roedd Deddf 2006 wedi ceisio mynd i'r afael â hyn.

2.3 Sut mae elusennau sydd wedi'u hesgusodi yn cael eu rheoleiddio?

Roedd Deddf 2006 wedi gwella'r ffordd y caiff elusennau sydd wedi'u hesgusodi eu rheoleiddio. Rhaid i elusennau sydd wedi'u hesgusodi naill ai:

- gael 'prif reoleiddwr' i'w rheoleiddio fel elusennau, neu
- heb fod wedi'u hesgusodi mwyach a bydd y Comisiwn yn eu rheoleiddio

Mae'r newidiadau hyn cael eu cyflwyno i grwpiau gwahanol o elusennau sydd wedi'u hesgusodi ar adegau gwahanol. Esbonnir hyn yn adran 2.5 .

2.4 Beth yw prif reoleiddwyr a beth maen nhw'n ei wneud?

Mae dyletswydd ar brif reoleiddwyr i hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r gyfraith elusennau gan yr elusennau y maent yn eu rheoleiddio. Cânt eu penodi gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet. Fel arfer, mae prif reoleiddwr eisoes yn brif reoleiddwr elusennau o dan fframwaith cyfreithiol arall.

Nod y prif reoleiddwr yw:

- hyrwyddo cydymffurfiaeth ymddiriedolwyr elusen â'r gyfraith elusennau
- monitro cydymffurfiaeth â'r gyfraith elusennau
- gofyn i'r Comisiwn gychwyn ymchwiliad, os oes angen, ond ni all ymchwilio i elusennau ei hun
- cydweithio â'r Comisiwn i sicrhau bod ei elusennau sydd wedi'u hesgusodi yn atebol i'r cyhoedd

Dylent allu cyflawni'r rôl hon heb newid yr hyn y maen nhw eisoes yn ei wneud.

Nid oes unrhyw bwerau gan brif reoleiddwyr i orfodi'r gyfraith elusennau. Maen nhw'n gweithio gyda'r Comisiwn i ddatrys unrhyw bryderon am elusen. Mae'n rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â'r prif reoleiddiwr cyn defnyddio unrhyw bwerau sydd ganddo. Gallwn gychwyn ymchwiliad statudol dim ond os yw'r prif reoleiddiwr yn gofyn i ni wneud hynny.

2.5 Pa elusennau sydd wedi'u hesgusodi sydd â phrif reoleiddwyr?

Mae'r rheolau yn newid i grwpiau gwahanol o elusennau sydd wedi'u hesgusodi ar adegau gwahanol. Daeth y newidiadau cyntaf i rym ar 1 Mehefin 2010, yr ail gam ar 1 Awst 2011 a'r trydydd cam ar 1 Medi 2013. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am unrhyw newidiadau yn y dyfodol pan fydd ar gael. Mae'r prif reoleiddwyr presennol wedi'u rhestru yn yr Atodiadau i'r canllaw hwn.

2.6 Ydy unrhyw elusennau wedi peidio â chael eu hesgusodi?

Nid yw'r elusennau canlynol wedi'u hesgusodi mwyach oherwydd nid oedd unrhyw gorff addas i weithredu fel prif reoleiddiwr:

- prifysgolion a Sefydliadau Addysg Uwch eraill yng Nghymru
- colegau a neuaddau Prifysgolion Caergrawnt, Durham a Rhydychen
- undebau myfyrwyr
- Colegau Eton a Winchester
- Amgueddfa Llundain
- Comisiynwyr yr Eglwys, a Chorff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru

Mae pob un o'r elusennau hyn wedi'u rheoleiddio'n uniongyrchol gan y Comisiwn bellach. Mae'n rhaid i elusennau sydd wedi peidio â chael eu hesgusodi gofrestru gyda'r Comisiwn os yw eu hincwm yn fwy na £100,000 y flwyddyn.

2.7 Pwy ddylai aelodau'r cyhoedd gysylltu â nhw os oes cwestiynau neu bryderon ganddynt am elusen sydd wedi'i hesgusodi?

Dylai aelodau'r cyhoedd sydd â chwestiwn am elusen sydd wedi'i hesgusodi gysylltu â phrif reoleiddiwr yr elusen yn y lle cyntaf. Gweler Atodiad 1 ac Atodiad 2 am fanylion.

3. Elusennau sydd wedi'u hesgusodi a'r gyfraith

3.1. Pa gyfrifoldebau sydd gan ymddiriedolwyr elusen sydd wedi'i hesgusodi?

Gofyniad cyfreithiol: mae gan ymddiriedolwyr elusen sydd wedi'i hesgusodi yr un dyletswyddau a chyfrifoldebau cyffredinol ag ymddiriedolwyr elusennau eraill. Er enghraifft, mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen sydd wedi'i hesgusodi:

- weithredu'n rhesymol ac yn gyfrifol wrth ddelio â phob mater sy'n ymwneud â'r elusen
- gweithredu er lles gorau'r elusen bob amser a rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau
- defnyddio incwm ac eiddo'r elusen at y dibenion a nodwyd yn y ddogfen lywodraethol yn unig
- diogelu holl eiddo'r elusen
- buddsoddi arian yr elusen yn unol â'u pwerau buddsoddi yn unig
- ystyried canllawiau'r Comisiwn ar fudd cyhoeddus pan fo'n briodol
- adolygu effeithiolrwydd yr elusen yn rheolaidd.

Cewch wybod mwy yn ein canllaw, Yr ymddiriedolwr hanfodol:

Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: Yr hyn y mae angen i chi wybod (CC3).

3.2. Pa ddarpariaethau yn y Ddeddf Elusennau sydd heb fod yn berthnasol i unrhyw elusen sydd wedi'i hesgusodi?

Cofrestru (gofyniad cyfreithiol)

Ni all elusen sydd wedi'i hesgusodi gofrestru gyda ni.

Ni all elusen sydd wedi'i hesgusodi ddisgrifio ei hun fel elusen gofrestredig ac ni all ddefnyddio rhif elusen gofrestredig (hyd yn oed os oedd un ganddi yn flaenorol).

Cyfrifon, archwilio ac Adroddiadau Blynyddol (gofyniad cyfreithiol)

Mae pob elusen sydd wedi'i hesgusodi yn atebol i'r cyhoedd a rhaid iddi gynhyrchu cyfrifon priodol, er bydd y ffordd y mae'n gwneud hynny yn wahanol i'r elusennau y mae'r Comisiwn yn eu rheoleiddio.

Nid oes rhaid i elusennau sydd wedi'u hesgusodi gydymffurfio â gofynion y Ddeddf Elusennau i:

- ffeilio cyfrifon neu adroddiadau blynyddol gyda ni
- cael archwiliad ariannol neu archwiliad annibynnol o'u cyfrifon
- paratoi adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr

Mae'n rhaid i nifer o elusennau sydd wedi'u hesgusodi baratoi cyfrifon o dan eu fframweithiau cyfreithiol eu hunain neu ofynion rheoleiddwyr. Mae'n rhaid i elusennau sydd wedi'u hesgusodi sy'n gwmnïau gynhyrchu cyfrifon sy'n rhoi darlun 'gwir a theg', a disgwylir iddynt ddilyn arferion gorau (gan gynnwys y Datganid o Arferion Cymeradwy - Cyfrifon ac Adroddiadau gan Elusennau). Fel arall, mae'n rhaid i elusennau sydd wedi'u hesgusodi:

- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol
- paratoi datganiadau cyfrifon olynol sy'n cynnwys cyfrif incwm a gwariant am gyfnod o ddim mwy na 15 mis a mantolen sy'n cyfeirio at ddiwedd y cyfnod hwnnw
- cadw'r cofnodion a'r datganiadau hyn am 6 mlynedd o leiaf oni bai bod yr elusen yn peidio â bodoli ac rydym yn rhoi cydsyniad ysgrifenedig i'w gwaredu

Rhaid i elusen sydd wedi'i hesgusodi ddarparu copi o'i chyfrifon diweddaraf hefyd i unrhyw un sy'n gofyn amdanynt, cyn pen dau fis. Gall godi tâl rhesymol i dalu am y gost o wneud hynny.

Gwaredu a morgeisio tir (gofyniad cyfreithiol)

Rhaid i ymddiriedolwyr elusennau sydd wedi'u hesgusodi gyflawni eu dyletswyddau cyffredinol (gweler adran 3.1) pan fyddant yn gwaredu tir elusennol neu'n ei forgeisio. Yn wahanol i elusennau sy'n cael eu rheoleiddio gennym ni, nid yw'r cyfyngiadau ar warediadau a morgeisiau yn y Ddeddf Elusennau yn gymwys.

Mae'r Ddeddf Elusennau yn ei gwneud hi'n ofynnol i elusennau gynnwys rhai datganiadau yn y ddogfennaeth sy'n ymwneud â gwaredu tir neu forgais. Mae hyn yn gymwys i elusennau sydd wedi'u hesgusodi. Dylai ymddiriedolwyr geisio cyngor cyfreithiol ar y materion hyn.

Cewch wybodaeth bellach yn ein canllaw ar waredu tir elusennau:

Gwerthiannau, prydlesi, trosglwyddiadau neu forgeisiau: Yr hyn y mae angen i ymddiriedolwyr wybod am waredu tir elusennau (CC28).

3.3 Pa ddarpariaethau yn y Ddeddf Elusennau sy'n berthnasol i elusennau sydd wedi'u hesgusodi sydd â phrif reoleiddiwr?

Ar ôl ymgynghori â'r prif reoleiddiwr, gallwn os oes angen:

- ofyn i elusen sydd wedi'i hesgusodi newid ei henw
- cychwyn ymchwiliad statudol (dim ond ar gais y prif reoleiddiwr)
- gorchymyn bod rhywun yn rhoi gwybodaeth neu ddogfennau sydd yn eu meddiant i ni
- defnyddio ein pwerau amddiffyn i wahardd neu ddiswyddo ymddiriedolwyr, rhewi cyfrifon banc ac ati
- rhoi cyfarwyddiadau am gyfrifon banc segur sydd gan elusen neu ymddiriedolwyr nad oes modd eu holrhain mwyach
- gwneud Gorchymyn i gyfarwyddo ymddiriedolwr sydd wedi gweithredu tra ei fod wedi'i anghymhwysu o dan y Ddeddf Elusennau i ad-dalu unrhyw symiau a dderbyniwyd gan yr elusen yn ystod y cyfnod pan yr oedd wedi'i anghymhwysu.

Gofyniad cyfreithiol: erbyn hyn mae'n rhaid i elusennau sydd wedi'u hesgusodi sydd â phrif reoleiddiwr:

- gael cydsyniad y Llys neu'r Comisiwn cyn gwario arian ar baratoi neu hyrwyddo Mesur yn y Senedd
- cael cydsyniad cyn cychwyn achos elusen yn y llys.

Nid yw'r pwerau a'r cyfyngiadau hyn yn gymwys i elusennau sydd wedi'u hesgusodi sydd heb brif reoleiddiwr eto. Nid yw'r newidiadau i reoleiddio elusennau sydd wedi'u hesgusodi (a gyflwynwyd gan Ddeddf 2006) yn ôl-weithredol, felly nid yw'r pwerau a'r cyfyngiadau hyn yn gymwys yn gyffredinol i weithredoedd neu benderfyniadau'r ymddiriedolwyr a wnaed cyn i brif reoleiddiwr gael ei benodi.

3.4 Ydy'r rheolau ynghylch anghymhwysio ymddiriedolwyr yn gymwys i elusennau sydd wedi'u hesgusodi?

Gofyniad cyfreithiol: ydynt. Mae darpariaethau'r Ddeddf Elusennau sy'n ymwneud ag anghymhwysio ymddiriedolwyr yn gymwys i bob elusen, gan gynnwys elusen sydd wedi'i hesgusodi. Mae'r pŵer gennym roi hepgoriad o anghymhwysiad o'r fath. Os yw prif reoleiddiwr wedi cael ei benodi, gallwn ddefnyddio'r pŵer hwn dim ond ar ôl i ni ymgynghori â'r prif reoleiddiwr.

3.5 Ydy'r rheolaethau statudol sy'n rheoli codi arian yn effeithio ar elusennau sydd wedi'u hesgusodi?

Gofyniad cyfreithiol: ydynt. Mae'r rheolaethau codi arian yn effeithio ar bob elusen, gan gynnwys elusennau sydd wedi'u hesgusodi.

I gael rhagor o fanylion am y rheolaethau eu hunain a chyngor cyffredinol ar godi arian, gweler ein canllaw ar elusennau a chodi arian:

Elusennau a Chodi Arian (CC20).

4. Cymorth a chyngor i elusennau sydd wedi'u hesgusodi

4.1 Sut gall y Comisiwn helpu elusennau sydd wedi eu hesgusodi?

Gallwn ni helpu elusennau sydd wedi'u hesgusodi mewn sawl ffordd. Gallwn roi gwybodaeth a chyngor iddynt, a defnyddio ein pwerau i wneud Cynlluniau a Gorchymynion pan fydd yr ymddiriedolwyr yn gofyn amdano. Os yw prif reoleiddiwr wedi cael ei benodi, gallwn ddefnyddio'r pwerau hyn dim ond ar ôl i ni ymgynghori â'r rheoleiddiwr hwnnw.

Gwneud cais am Gynllun

Gall ymddiriedolwyr elusen sydd wedi'u hesgusodi wneud cais i ni am Orchymyn neu Gynllun. Gall y Gorchymyn neu'r Cynllun newid, diwygio neu (yn achos Cynllun) ddisodli dogfen lywodraethol yr elusen os nad oes unrhyw ddarpariaeth arall ar gyfer gwneud y newidiadau (e.e. trwy offeryn statudol neu gan yr ymddiriedolwyr eu hunain).

Mae ein canllaw ar newid eich dogfen lywodraethol yn rhoi rhagor o wybodaeth:

Newid Dogfen Lywodraethol eich Elusen (CC36)

Ceidwad Swyddogol Elusennau

Gall elusennau sydd wedi'i hesgusodi ofyn i ni wneud gorchymyn i freinio tir yng Nghaidwad Swyddogol Elusennau.

Disgrifir manteision breinio yn y Ceidwad Swyddogol yn ein canllaw:

Gwasanaeth Dal Tir Ceidwad Swyddogol Elusennau (CC13)

Cronfeydd buddsoddi cyffredin a chronfeydd adnau cyffredin

Gall ymddiriedolwyr ddwy neu ragor o elusennau sydd wedi'u hesgusodi wneud cais i ni am Gynllun i sefydlu cronfa fuddsoddi gyffredin neu gronfa adnau gyffredin. Mae'r cronfeydd hyn yn gyfryngau buddsoddi sydd ar gael i elusennau yn unig. Mae pob cronfa yn elusen ynddi'i hun, ond os yw'r Cynllun sy'n ei sefydlu yn caniatáu i elusennau sydd wedi'u hesgusodi gymryd rhan yn unig, yna mae'r gronfa hefyd yn elusen sydd wedi'i hesgusodi.

Rhoi awdurdod penodol i ymddiriedolwyr wneud pethau arbennig

Gofyniad cyfreithiol: gallwn wneud gorchymyn i awdurdodi ymddiriedolwyr (gan gynnwys ymddiriedolwyr elusen sydd wedi'i hesgusodi) i wneud rhywbeth a fyddai o fudd i'w helusen, ond nid oes pŵer ganddynt i'w wneud. Ni all y camau yr hoffon nhw eu cymryd gael eu gwahardd yn benodol gan y gyfraith neu gan y ddogfen lywodraethol.

Taliadau ex gratia (gofyniad cyfreithiol)

Taliad ex gratia yw taliad y mae'r ymddiriedolwyr yn teimlo bod rheidrwydd moesol arnynt i'w wneud ond:

- nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol arnynt i'w wneud
- nid yw dogfen lywodraethol yr elusen yn eu hawdurdodi i'w wneud, ac
- ni allant ei gyfiawnhau fel rhywbeth sydd er budd yr elusen

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen sydd wedi'i hesgusodi sy'n dymuno gwneud taliad gwirfoddol yn yr amgylchiadau hyn wneud cais am ein caniatâd i wneud hynny. Mae'r un drefn yn gymwys pan fydd ymddiriedolwyr yn ystyried ildio hawliau i dderbyn eiddo y mae gan yr elusen hawl gyfreithiol iddo fel arall.

Mae rhagor o wybodaeth ar daliadau ex gratia ar gael yn ein canllaw:

Taliadau Ex Gratia gan Elusennau (CC7)

Cyngor ffurfiol i ymddiriedolwyr

Gallwn roi cyngor cyffredinol i elusennau, ond mae pŵer gennym roi cyngor ffurfiol penodol hefyd. Gall ymddiriedolwyr elusen sydd wedi'i hesgusodi ysgrifennu atom am gyngor ffurfiol os nad ydynt yn siŵr a fyddent yn gweithredu'n briodol fel ymddiriedolwyr trwy weithredu mewn ffordd arbennig.

Ystyrir bod ymddiriedolwyr sydd wedi gweithredu ar y cyngor hwnnw wedi gweithredu'n briodol, oni bai eu bod yn gwybod neu fod ganddynt achos rhesymol dros amau:

- bod y cyngor wedi'i roi heb wybod am y ffeithiau pwysig
- bod ffeithiau pwysig wedi newid ers y rhoddwyd y cyngor
- cafwyd penderfyniad y Llysoedd ar y mater, neu
- mae achos i gael penderfyniad y Llysoedd yn parhau

Tystysgrifau ymgorffori

Gall ymddiriedolwyr elusen sydd wedi'i hesgusodi wneud cais i ni am dystysgrif corffori

ymddiriedolwyr fel corfforaeth gorfforedig. Byddwn yn rhoi dystysgrif o'r fath oni bai ein bod o'r farn na fyddai corffori er lles gorau'r elusen. Fodd bynnag, mae sawl math o elusennau sydd wedi'u hesgusodi eisoes wedi'u corffori ac felly ni fyddent yn elwa o hyn.

I gael rhagor o fanylion am ymgorffori ymddiriedolwyr elusen gweler ein canllaw:

Ymgorffori Ymddiriedolwyr Elusennau (CC43)

4.2. Pa fanteision ariannol all elusennau sydd wedi'u hesgusodi eu hawlio?

Mae gan elusennau sydd wedi'u hesgusodi yr union yr un hawl i fuddiannau ariannol ag elusennau cofrestredig. Mae hawl ganddynt gael:

- gostyngiad mewn treth incwm, treth gorfforaeth a threth enillion cyfalaf
- eu heithrio rhag talu treth etifeddiaeth
- gostyngiad mewn trethi busnes neu annomestig

Cewch ragor o wybodaeth am fuddion treth gan Gyllid a Thollau EM. Y cyfeiriad yw:

HMRC Elusennau
St Johns' House
Merton Road
Lerpwl, L75 1BB

Ffôn: 0845 302 0203

4.3. Sut gall elusennau sydd wedi'u hesgusodi brofi eu bod yn elusennau?

Y ffordd hawsaf i elusennau sydd wedi'u hesgusodi brofi eu bod yn elusennau yw drwy gyfeirio at y canllaw hwn, sy'n rhestru'r holl wahanol grwpiau o elusennau sydd wedi'u hesgusodi. Mae elusennau wedi'u hesgusodi dim ond os ydynt wedi'u rhestru yn Atodlen 3 i'r Ddeddf Elusennau neu wedi'u hesgusodi drwy ddeddfwriaeth arall.

Gall elusennau sydd wedi'u hesgusodi sy'n hawlio rhyddhad treth hefyd ddefnyddio eu cyfeirnod HMRC fel tystiolaeth i ddangos eu bod yn elusen.

Gallai elusennau sydd wedi'u hesgusodi gyda phrif reoleiddiwr ofyn i'w prif reoleiddiwr gadarnhau eu bod yn elusennau.

4.4. Ble all elusennau sydd wedi'u hesgusodi gael cyngor ar ofynion y gyfraith elusennau?

Mae ein gwefan yn cynnig ystod eang o wasanaethau, offer, gwybodaeth a chanllawiau hygyrch ar-lein. Efallai yr hoffech **chwilio ein cronfa ddata ar-lein o gwestiynau cyffredin**. Bydd y rhan fwyaf o bobl gael hyd i'r ateb sydd ei angen arnynt.

Yn gyffredinol dylid cysylltu â'r prif reoleiddiwr yn gyntaf gydag unrhyw ymholiad. Gallant gyfeirio unrhyw fater atom ni i gael cyngor pellach.

Cysylltu â ni ar-lein. Sut i gysylltu â ni ar-lein os na all eich ymholiad yn cael ei drin gan ein ffurflenni neu ganllawiau ar-lein.

Byddwn yn rhoi gwybod i'r ymddiriedolwyr os oes angen unrhyw wybodaeth arall arnom (e.e. cyfrifon yr elusen).

Atodiad 1: Elusennau sydd wedi'u hesgusodi a'u prif reoleiddwyr

Mae rhai elusennau wedi cael eu hesgusodi ers i'r Comisiwn gael ei sefydlu yn 1853. Mae elusennau neu grwpiau o elusennau eraill wedi cael eu hesgusodi ers hynny, gan wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth. Rhestrir y rhan fwyaf o elusennau sydd wedi'u hesgusodi erbyn hyn yn Atodlen 3 i Ddeddf Elusennau 1993. Mae rhai elusennau sydd wedi'u hesgusodi o hyd sydd heb eu rhestru yn Atodlen 3.

Elusennau sydd wedi'u hesgusodi a restrir yn Atodlen 3 i'r Ddeddf Elusennau

Mae sefydliadau a restrir yn Atodlen 3 wedi'u hesgusodi dim ond cyn belled ag y bônt yn elusennau. Nid yw Atodlen 3 yn eu gwneud nhw'n elusennau.

Mae Atodlen 3 yn adlewyrchu rhai newidiadau y bwriedir eu gwneud ond sydd heb fod mewn grym eto.

Elusennau Addysgol

Mae'r categori hwn yn cynnwys:

- y rhan fwyaf o brifysgolion a Sefydliadau Addysg Uwch Lloegr
- Ymddiriedolaethau Academi (Lloegr yn unig)
- cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a sefydledig
- corfforaethau colegau chweched dosbarth (Lloegr yn unig)
- Corfforaethau Addysg Bellach

Elusennau yn y grŵp hwn	Nodiadau
<p>Prifysgolion a oedd wedi'u hesgusodi cyn Deddf Elusennau 1960</p>	<p>Cafodd HEFCE ei benodi fel y prif reoleiddiwr ar gyfer yr elusennau hyn ar 1 Mehefin 2010.</p> <p>Nid ydynt wedi'u henwi yn Atodlen 3, ond y prifysgolion yw Birmingham, Bryste, Exeter, Hull, Leeds, Caerlŷr, Lerpwl, Manceinion, Nottingham, Reading, Sheffield a Southampton;</p>
<p>Prifysgolion Rhydychen, Caergrawnt, Llundain, Durham, Newcastle a Manceinion.</p> <p>King's College Llundain a Choleg Queen Mary a Westfield ym Mhrifysgol Llundain.</p> <p>Unrhyw brifysgol arall, coleg prifysgol neu sefydliad cysylltiedig arall yn Lloegr sydd wedi'i esgusodi gan Orchymyn yn y Cyngor.</p> <p>Corfforaethau addysg uwch Lloegr.</p> <p>Cwmni sy'n olynu corfforaeth addysg uwch sy'n cael ei ariannu gan HEFCE.</p>	<p>Cafodd HEFCE ei benodi fel y prif reoleiddiwr ar gyfer yr elusennau hyn ar 1 Mehefin 2010.</p> <p>Mae'r grŵp hwn yn cynnwys y Brifysgol Agored, ond nid yw'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • unrhyw goleg ym mhrifysgol Rhydychen • unrhyw goleg neu neuadd ym mhrifysgol Caergrawnt neu Durham • unrhyw undeb myfyrwyr • sefydliadau AU Cymru <p>Daeth eu hesgusodiad i ben ar 1 Mehefin 2010.</p> <p>Nid yw rhai Sefydliadau AU Lloegr erioed wedi cael eu hesgusodi ac maen nhw wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn.</p>
<p>Corfforaethau Addysg Bellach.</p>	<p>Yn Lloegr y prif reoleiddiwr yw'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a benodwyd ar 1 Medi 2013</p> <p>Yng Nghymru y prif reoleiddiwr yw Llywodraeth Cymru a benodwyd ar 1 Medi 2013.</p>
<p>Perchennog Academi cymwys (Ymddiriedolaeth Academi) fel y diffinnir gan y Ddeddf Academiau 2010.</p>	<p>Mae'r elusennau hyn yn bodoli yn Lloegr yn unig. Mae'n cynnwys Academiau, Ysgolion Am Ddim, Colegau Technoleg Prifysgolion ac Ysgolion Stiwdio a reolir gan Academiau.</p> <p>Y prif reoleiddiwr yw'r Adran Addysg a benodwyd ar 1 Awst 2011</p>
<p>Corff llywodraethu unrhyw ysgol sefydledig, wirfoddol (a gynorthwyir neu a reolir) neu arbennig sefydledig.</p> <p>Unrhyw gorff sefydledig wedi'i sefydlu o dan adran 21 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.</p>	<p>Yn Lloegr y prif reoleiddiwr yw'r Adran Addysg a benodwyd ar 1 Awst 2011.</p> <p>Yng Nghymru y prif reoleiddiwr yw Llywodraeth Cymru a benodwyd ar 1 Awst 2011.</p>
<p>Corfforaeth coleg chweched dosbarth (o fewn ystyr Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992).</p>	<p>Mae'r elusennau hyn yn bodoli yn Lloegr yn unig. Y prif reoleiddiwr yw'r Adran Addysg a benodwyd ar 1 Awst 2011</p>

Amgueddfeydd ac Oriellau

Elusennau yn y grŵp hwn	Nodiadau
<p>Byrddau/Ymddiriedolwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amgueddfa Fictoria ac Albert • Yr Amgueddfa Wyddoniaeth • The Royal Armouries • Amgueddfeydd ac Oriellau Cenedlaethol ar Lannau Mersi • Amgueddfa Prydain • Amgueddfa Astudiaethau Natur • Yr Oriell Genedlaethol • Oriell Tate • Oriell Bortreadau Genedlaethol • Casgliad Wallace • Yr Amgueddfa Ryfel Ymerodrol • Yr Amgueddfa Forol Genedlaethol • Llyfrgell Prydain 	<ul style="list-style-type: none"> • Y Prif Reoleiddiwr yw'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a benodwyd ar 1 Mehefin 2010. Mae'r Adran yn noddi ac yn ariannu'r elusennau hyn.
<p>Bwrdd Ymddiriedolwyr Gerddi Botanegol Brenhinol, Kew.</p>	<p>Y Prif Reoleiddiwr yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) a benodwyd ar 1 Mehefin 2010. Mae DEFRA yn noddi ac yn ariannu'r elusen hon.</p>

Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus (Budd Cymunedol) a Chyfeillgar gan gynnwys darparwyr tai cymdeithasol

Mae'r categori hwn yn cynnwys unrhyw un o'r mathau canlynol o sefydliadau sydd â dibenion elusennol yn unig er budd y cyhoedd:

- cymdeithasau cyfeillgar cofrestredig
- cymdeithasau diwydiannol a darbodus (cymdeithasau budd cymunedol)

Mae'r sefydliadau hyn wedi'u cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Mae nifer ohonynt yn ddarparwyr tai cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru gyda'r rheoleiddiwr tai, a'u rheoleiddio ganddynt.

Cymdeithasau diwydiannau a darbodus Mae'n amlinellu safle'r Comisiwn Elusennau o ran Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus a thalu llog ar gyfalaf cyfranddaliadau.

Mae Atodlen 3 yn rhagweld rhai newidiadau sydd heb eu gwneud eto:

- mae deddfwriaeth wedi cael ei phasio ond nid yw mewn grym eto, a fydd yn ailenwi Deddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 yn Neddf Cymunedau Cydweithredol a Budd Cymunedol ac Undebau Credyd 1965.

- nid yw unrhyw benderfyniad terfynol wedi cael ei wneud ar reoleiddio cymdeithasau budd cymunedol a chymdeithasau cyfeillgar fel elusennau. Un posibilrwydd yw y gall y rhai sy'n ddarparwyr tai cymdeithasol cofrestredig barhau i gael eu hesgusodi tra gall eraill gollu eu hesgusodiad os nad oes modd cael hyd i brif reoleiddiwr addas.

Elusennau yn y grŵp hwn	Nodiadau
Cymdeithasau Budd Cymunedol sy'n ddarparwr cofrestredig di-elw o dai cymdeithasol. Cymdeithasau Cyfeillgar Cofrestredig a Chymdeithasau Budd Cymunedol sy'n Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.	Dim prif reoleiddiwr wedi'i benodi eto
Cymdeithasau Cyfeillgar Cofrestredig a Chymdeithasau Budd Cymunedol elusennol eraill (nid darparwyr tai cymdeithasol wedi'u rheoleiddio)	Dim prif reoleiddiwr wedi'i benodi eto

Cronfeydd Buddsoddi Eglwys Loegr a'r Eglwys Fethodistaidd

Mae elusennau yn y categori hwn yn cynnwys:

- unrhyw Gronfa Fuddsoddi neu Gronfa Adnau o fewn ystyr Mesur Buddsoddi Cronfeydd Eglwysig 1958
- unrhyw gronfa fuddsoddi neu gronfa adnau o fewn ystyr Deddf Cronfeydd yr Eglwys Fethodistaidd 1960

Roedd yr elusennau hyn wedi'u hesgusodi cyn Deddf Elusennau 1960. Mae Atodlen 3 yn cynnwys darpariaeth i ddirymu eu hesgusodiad, ond nid yw'r ddarpariaeth hon wedi cael ei gweithredu eto ac ni chytunwyd ar unrhyw ddyddiad gweithredu. Nid oes prif reoleiddiwr ganddynt.

Elusennau sydd wedi'u hesgusodi na restrir yn Atodlen 3 i'r Ddeddf Elusennau

Cafodd corff llywodraethu Coleg Catholig Dewi Sant, darparwr addysg bellach dynodedig yng Nghymru, ei ymgorffori a'i esgusodi gan Offeryn Statudol. Ei brif reoleiddiwr yw Llywodraeth Cymru a benodwyd ar 1 Medi 2013

Mae cronfeydd buddsoddi cyffredin a chronfeydd adnau cyffredinol sy'n caniatáu buddsoddiad gan elusennau sydd wedi'u hesgusodi yn unig wedi'u hesgusodi eu hunain o dan ddarpariaethau Deddf Elusennau 1993 sy'n parhau mewn grym. (Mae'r Ddeddf Elusennau yn cynnwys darpariaethau i derfynu'r esgusodiad hwn, ond ni phennwyd unrhyw ddyddiad ar gyfer y newid hwn). Nid oes unrhyw brif reoleiddiwr gan yr elusennau hyn sydd wedi'u hesgusodi.

Atodiad 2: Manylion cyswllt ar gyfer prif reoleiddwyr

Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau

2 St Paul's Place
125 Norfolk Street
Sheffield
S1 2FJ

Ffôn: 020 7215 5000

E-bost: enquiries@bis.gsi.gov.uk

Gwefan: www.gov.uk/government/organisations/department-for-business-innovation-skills

Memorandwn Dealltwriaeth rhwng BIS a'r Comisiwn

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS)

2-4 Cockspur Street
Llundain
SW1Y 5DH

Ffôn: 020 7211 6000

E-bost: enquiries@culture.gov.uk

Gwefan: www.gov.uk/government/policies/maintaining-world-leading-national-museums-and-galleries-and-supporting-the-museum-sector/supporting-pages/providing-funding-for-national-museums-and-galleries

Memorandwm Dealltwriaeth rhwng DSMS a'r Comisiwn

Yr Adran Addysg (DfE)

Ffôn: 0370 000 2288

Tudalen we gyswllt: www.education.gov.uk/help/contactus

Tudalen we academiâu: www.education.gov.uk/schools/leadership/typesofschools/academies

Memorandwm Dealltwriaeth rhwng yr Adran Addysg a'r Comisiwn

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)

Nobel House
17 Smith Square
Llundain
SW1P 3JR

Ffôn: 08459 33 55 77

E-bost: defra.helpline@defra.gsi.gov.uk

Gwefan: www.defra.gov.uk/

Memorandwm Dealltwriaeth rhwng DEFRA a'r Comisiwn

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE)

Northavon House
Coldharbour Lane
Bryste
BS16 1QD

Ffôn: 0117 931 7317

E-bost: charityreg@hefce.ac.uk.

Gwefan: www.hefce.ac.uk/whatwedo/reg/charityreg

Memorandwm Dealltwriaeth rhwng HEFCE a'r Comisiwn

Llywodraeth Cymru

Yr Adran Addysg a Sgiliau
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0300 0603300

E-bost (ysgolion): principalregulatorschools@wales.gsi.gov.uk

E-bost (AB): principalregulatorschools@wales.gsi.gov.uk

Gwefan: <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills>

Memorandwm Dealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn

Atodiad 3 - Canllawiau defnyddiol eraill i elusennau sydd wedi'u hesgusod

- Bod yn ymddiriedolwr (cyflwyniad)
- Arfer da i elusennau (cyflwyniad)
- Gwneud penderfyniadau (cyflwyniad)
- Gwrthdaro buddiannau (cyflwyniad)
- Taliadau a threuliau i ymddiriedolwyr (cyflwyniad)
- Canllawiau i ysgolion, colegau a phrifysgolion
- Elusennau sy'n darparu tai
- Cymdeithasau diwydiannol a darbodus elusennol a thalu llog ar gyfranddaliadau
- Dibenion elusennol a budd cyhoeddus